
Taflen ffeithiau: Cyllido torfol: rhoddion a ganiateir

O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), ceir rheolau ynglŷn â pha roddion y caiff pleidiau gwleidyddol cofrestredig ac ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau eu derbyn. Rhaid cofnodi ac adrodd am rai rhoddion i ni. Rydym yn cyhoeddi'r adroddiadau hyn ar ein gwefan.

Mae ein canllawiau yn esbonio'r rheolau ar sut y mae'n rhaid gwirio rhoddion cyn eu derbyn, ac adrodd arnynt i ni. Mae set o ganllawiau i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau. Dylech ddarllen y canllawiau cyn i chi ddarllen y daflen ffeithiau hon.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio sut i gymhwyso'r rheolau ar roddion a ganiateir i weithgareddau cyllido torfol.

Mae hefyd yn gadael i chi wybod ble y gallwch ddod o hyd i wybodaeth a chyngor pellach ar y rheolau hyn.

Rhoddion

Ceir rheolau sy'n ymdrin â phryd y gall ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion.

Dim ond o ffynonellau a ganiateir y gellir derbyn rhoddion dros swm penodol. Mae'r swm yn wahanol i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Mae'r rheolau ynghylch gwirio a derbyn rhoddion yn berthnasol i:

- bleidiau gwleidyddol drwy'r amser
- ymgeiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer digwyddiad etholiadol
- ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau mewn perthynas â'u gwariant ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer digwyddiad etholiadol

Mae ein canllawiau yn esbonio'r cyfnodau a reoleiddir ar gyfer pob digwyddiad etholiadol.

Beth yw cyllido torfol

Cyllido torfol yw'r defnydd o lwyfan ar y we i gasglu rhoddion. Caiff y llwyfan ei reoli yn gyffredinol gan ddarparwr trydydd parti ac mae gan bob ymgyrch codi arian unigol dudalen ar y safle. Fel rheol mae'r ymgyrchoedd yn rhedeg am gyfnod penodol o amser. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, mae'r arian a godwyd, minws ffi a delir i'r darparwr, yn cael eu trosglwyddo i'r derbynydd.

Cyllido torfol Tryloywder

Dylech sicrhau ei bod yn glir ar y dudalen we cyllido torfol i bwy mae'r arian yn cael ei roi: i ymgeisydd, i blaid gwleidyddol neu i ymgyrchydd nad yw'n blaid. Mae hyn oherwydd bod gwahanol drothwyon cofnodi ac adrodd i bob endid.

Dylech chi, fel ymgeisydd, ymgyrchydd nad yw'n blaid, neu blaid gwleidyddol sicrhau bod y wefan yn cynnwys gwybodaeth sy'n esbonio y cynhelir gwiriadau o ran p'un a yw'r rhodd yn un a ganiateir yn unol â'r rheolau, ac y gall gwybodaeth am roddion, gan gynnwys manylion y rhoddwr, gael eu cyhoeddi.

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am roddion dros swm penodol a wneir i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn seiliedig ar adroddiadau y maent yn eu darparu i ni. Mae Swyddogion Canlyniadau yn sicrhau fod y ffurflenni a baratowyd gan yr ymgeiswyr ar gael i'w harchwilio ar ôl etholiadau. Mae'r rhain yn cynnwys manylion am roddion.

Ceir rheolau arbennig o amgylch rhyddhau gwybodaeth am bwy yw'r rhoddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

Dylai tudalennau cyllido torfol wneud y rheolau hyn yn glir i roddwyr, ynghyd â'r posibilrwydd y bydd eu henw yn ymddangos yn gyhoeddus fel rhoddwr.

Rhoddion a ganiateir

Dim ond o ffynhonnell a ganiateir y dylech dderbyn rhoddion.

Rhodd yw arian, nwyddau, eiddo, neu wasanaethau dros werth penodol. Y gwerth hwn yw:

- **£50** i ymgeiswyr, a
- **£500** i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

Nid yw arian a roddir drwy dudalen we cyllido torfol sy'n llai na'r symiau hyn yn rhodd, ac nid oes angen i chi adrodd yn ei gylch oni bai bod rhoddion lluosog o'r un ffynhonnell yn cronni i'r symiau hyn. Os bydd hynny'n digwydd, gellir ei drin fel un rhodd. Dylech sicrhau bod gennych ddigon o wybodaeth gan y darparwr cyllido torfol a'ch bod wedi cynnal eich cofnodion mewn ffordd sy'n eich galluogi i weld a oes rhoddion lluosog wedi dod o'r un ffynhonnell.

Dim ond o ffynonellau a ganiateir, yn bennaf yn y DU, y gall ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau dderbyn rhoddion. Mae ein canllawiau yn egluro gan bwy y gallwch dderbyn rhoddion.

Rhaid i chi gasglu digon o wybodaeth gan bob rhoddwr i sicrhau y gallwch wirio yn iawn fod pob rhodd yn dod o ffynhonnell a ganiateir.

Dylech nodi yn glir ar y dudalen we mai dyma'r rheswm yr ydych yn casglu unrhyw wybodaeth.

Os ydych yn ansicr pwy yw'r rhoddwr gwirioneddol yna **ni chewch** dderbyn y rhodd. Ni allwch dderbyn rhoddion dienw

Rhaid i chi hefyd gasglu digon o wybodaeth i gydymffurfio â'r gofynion adrodd.

Dyddiad derbyn rhodd

Pan fyddwch yn derbyn rhodd, mae gennych 30 diwrnod i gynnal gwiriadau ar p'un a yw'n rhodd a ganiateir, a phenderfynu p'un a allwch dderbyn y rhodd. Y dyddiad y derbynia'r ymgeisydd, plaid neu ymgyrchydd nad yw'n blaid y rhodd yw'r dyddiad y derbyniant yr arian gan y safle cyllido torfol. Dyma'r dyddiad y dechreu'r cyfnod o 30 diwrnod ar gyfer gwirio p'un a yw'n rhodd a ganiateir.

Os nad yw'r rhodd yn dod o ffynhonnell a ganiateir, mae'n rhaid i chi ei dychwelyd o fewn y cyfnod o 30 diwrnod. Os na fyddwch yn gwneud hynny, tybir eich bod wedi ei derbyn. Os ydych yn derbyn rhodd na chaniateir, efallai y bydd rhaid i chi ei fforffedu. Efallai y byddwch hefyd fod wedi cyflawni trosedd.

Yr hyn y mae rhaid ei gofnodi ac adrodd arno

Rhaid i bleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau, ac ymgyrchwyr i gyd ddilyn gofynion adrodd penodol. Nodir y gofynion hyn ein canllawiau.

Rhaid i bleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau adrodd am roddion dros £7,500 (ynddynt eu hunain, neu wedi eu hychwanegu at roddion eraill a dderbyniwyd gan yr un rhoddwr). Y trothwy ar gyfer unedau cyfrifyddu pleidiau gwleidyddol yw £1,500. Rhaid i ymgeiswyr roi gwybod am roddion dros £50 yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Os ydych yn derbyn rhodd sydd dros y trothwy cofnodi perthnasol, bydd angen i chi gofnodi'r manylion hyn:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- swm y rhodd
- y dyddiad y cafwyd y rhodd
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd

Rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y rhoddwr fel y caiff ei ddangos ar y gofrestr statudol berthnasol.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â pha gofrestrau sydd angen i chi eu gwirio, gweler ein canllawiau.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn casglu digon o wybodaeth i gwblhau eich rhwymedigaethau adrodd yn iawn, gan gynnwys eich rhwymedigaethau o ran sut yr ymdriniwyd â rhoddion gan roddwyr na chaniateir.

Argraffnodau

Ychwanegir argraffnod at ddeunydd etholiadol i ddangos pwy sy'n gyfrifol amdano. Mae'n helpu i sicrhau bod tryloywder o ran pwy sy'n ymgyrchu.

Dylech wastad sicrhau ei bod yn glir ar y dudalen i bwy y rhoddir yr arian.

Rydym yn argymhell y dylech roi argraffnod ar eich tudalen cyllido torfol.

Yn yr Alban, gall rheolau argraffnodau fod yn gymwys at ddeunydd digidol yn ogystal â deunydd argraffedig.

Gweler ein ffeithlenni am ragor o fanylion.

Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:

- [Argraffnodau ymgeiswyr](#)
- [Argraffnodau pleidiau gwleidyddol](#)
- [Argraffnodau ymgyrchwyr di-blaid](#)

Etholiadau Senedd yr Alban ac etholiadau cyngor yn yr Alban:

- [Argraffnodau ymgeiswyr \(Senedd yr Alban\)](#)
- [Argraffnodau pleidiau gwleidyddol \(Senedd yr Alban\)](#)
- [Argraffnodau ymgyrchwyr di-blaid \(Senedd yr Alban\)](#)

Arian crypto

Arian crypto yw arian digidol sy'n gweithredu'n annibynnol ar unrhyw fanc neu awdurdod canolog.

Mae'r un rheolau'n berthnasol i roddion a dderbyniwyd mewn arian crypto ag unrhyw roddion eraill. Rhaid casglu gwybodaeth ddigonol i wirio p'un a yw'n rhodd a ganiateir. Mae gennych 30 diwrnod o ddyddiad ei gael i wirio p'un a yw'n cael ei chaniatáu. Rhaid cael modd o osod gwerth ar y rhodd a roddir mewn unrhyw arian crypto.

Enghraifft

Mae ymgyrchudd nad yw'n blaid yn penderfynu codi arian ar gyfer gwario ar weithgaredd ymgyrchu a rooleiddir drwy wefan cyllido torfol.

Maent yn gwneud cytundeb gyda'r wefan cyllido torfol sy'n gosod terfyn amser o 5 Ionawr a tharged o £20,000.

Yna, maent yn cynhyrchu tudalen we, gan gynnwys:

- argraffnod priodol
- manylion am y gwiriadau a wneir ar roddion a ganiateir a phryd y gwneir hyn (h.y. rhoddion dros £500)
- cyngor na ellir derbyn rhoddion dienw dros £500
- cyngor y bydd rhoddion lluosog o'r un ffynhonnell yn cael eu cronni at ddibenion cofnodi ac adrodd
- gwybodaeth y bydd manylion y rhoddwr yn ymddangos ar y ffurflen etholiad, ac os yw rhoddwr yn cyfrannu dros swm penodol, y bydd pwy yw'r rhoddwr yn ymddangos ar wefan y Comisiwn Etholiadol

Mae'r ymgyrchydd nad yw'n blaid wedi dewis gwefan cyllido torfol sy'n casglu digon o wybodaeth gan roddwyr i sicrhau y gallant gwblhau eu rhwymedigaethau cofnodi ac adrodd.

Ar ôl cyrraedd y swm targed, mae'r ymgyrchydd nad yw'n blaid yn derbyn y cyllid ar 5 Ionawr, yn ogystal â manylion am y rhoddion a roddwyd iddo gan y darparwr cyllido torfol. Mae'r rhoddion yn cynnwys:

- rhodd o £550 a dderbyniwyd gan y dudalen we cyllido torfol ar 17 Rhagfyr
- rhodd o £7,520 a dderbyniwyd gan y dudalen we cyllido torfol ar 10 Rhagfyr
- 3 rhodd o £2,510 o'r un ffynhonnell a dderbyniwyd gan y dudalen we cyllido torfol ar 10 Rhagfyr, 17 Rhagfyr ac 3 Ionawr

- nifer o roddion eraill o ffynonellau hysbys o rhwng £500 a £1,000 ar a dderbyniwyd gan y dudalen we cyllido torfol dros y cyfnod

Dylai'r ymgyrchydd nad yw'n blaid gychwyn gwiriadau ar roddion a ganiateir ar 5 Ionawr oherwydd dyma'r dyddiad y cafwyd hwy.

Mae'r rhodd o £550 yn dod o ffynhonnell ddiennw. Mae'r ymgyrchydd nad yw'n blaid yn dychwelyd y rhodd i'r sefydliad ariannol o ble y daeth yn wreiddiol cyn diwedd y cyfnod o 30 diwrnod ar gyfer gwirio p'un a yw'n rhodd a ganiateir.

Mae'r ymgyrchydd yn derbyn y rhodd o £7,520 ar ôl gwirio ei bod yn rhodd a ganiateir. Mae'r rhoddwr yn ymwybodol o'r wybodaeth a ddarperir ar y dudalen we y bydd ei enw'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

Mae'r ymgyrchydd yn cronni ac yn derbyn y tair rhodd o £2,510 o'r un ffynhonnell ar ôl gwirio eu bod yn rhoddion a ganiateir. Mae'r rhoddwr yn ymwybodol o'r wybodaeth a ddarperir ar y dudalen we y bydd ei enw'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

Mae'r ymgyrchydd yn derbyn y rhoddion o rhwng £500 a £1,000 ar ôl ymgymryd â'r gwiriadau ar roddion a ganiateir.

Mae'r ymgyrchydd yn adrodd am y rhoddion o rhwng £500 a £1,000 fel swm cronedig i'r Comisiwn Etholiadol. Mae'r ymgyrchydd yn adrodd am y rhodd unigol o £7,520 a'r tair rhodd gronedig o £2,510, sef cyfanswm o £7,530. Yn ddiweddarach, mae manylion am y

rhoddion hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

Lle gallwch gael rhagor o wybodaeth

Rydym yn cyhoeddi canllawiau ac adnoddau ar gyfer ymgeiswyr, pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, y gallwch ddod o hyd iddynt ar ein [gwefan](#).

Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth cynghori. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich gwariant neu roddion, gallwch gysylltu â ni ar y rhifau ffôn neu un o'r cyfeiriadau e-bost isod.

Cysylltwch â ni

Mae ein rhif ffôn wedi newid. Erbyn hyn, gallwch gysylltu â ni ar 0333 103 1928. Pan fyddwch yn ffonio'r rhif hwn, byddwch yn cael nifer o opsiynau a fydd yn eich cyfeirio ymlaen i'r llinell gymorth cyllid pleidiau ac etholiadau neu eich swyddfa genedlaethol. Bydd ein hen rif yn parhau i weithio.

Nid yw ein cyfeiriad e-bost wedi newid a gallwch gysylltu â ni ar pef@electoralcommission.org.uk fel arfer.

Fel arall defnyddiwch y cyfeiriadau e-bost isod.

- Cymru:
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr:
pef@electoralcommission.org.uk

- Yr Alban:
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon:
infonorthemireland@electoralcommission.org.uk